# COFNODION CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 13EG TACHWEDD 2023

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Eifiona Davies

Y Cynghorydd Mark Thomas

Y Cynghorydd Dafydd Dafis

Y Cynghorydd Linda Ann Jones

Y Cynghorydd Troy MacLean

Y Cynghorydd Gareth Davies

Y Cynghorydd Morwenna Pugh

Y Cynghorydd Rory Francis

Sioned Graham-Cameron, Clerc y Cyngor

**1. Ymddiheuriadau**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Materion y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

Nid oedd unrhyw faterion o'r fath.

**4. Cyfetholiad Cynghorwyr Newydd**

Roedd tri chyfweliad wedi eu cynnal cyn y cyfarfod. Cynigiodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis bod y tri – David Meirion Jones, Peter Alan Jones a Dewi Prysor Williams – yn cael eu cyfethol fel Cynghorwyr Tref a chytunodd pawb.

**5. Diweddariad gan yr Heddlu**

Nid oedd Aelod o staff yr heddlu yn bresennol yn y cyfarfod a mynegodd y cynghorwyr siomedigaeth unwaith eto. Cynigiodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd Y Cynghorydd Eifiona Davies bod y Cyngor Tref yn ysgrifennu at Bencadlys yr Heddlu ym Mae Colwyn yn mynegi hyn a gofyn am gael presenoldeb rheolaidd yng nghyfarfodydd y Cyngor a chytunodd pawb gyda hynny.

**6. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Roedd Ed Bailey ac aelodau teulu ffermio lleol a oedd eisiau datblygu cynllun trydan dŵr yng Nghwm Cynfal yn bresennol i roi trosolwg ar y darpar gynllun, a oedd yn y cyfnod ymgynghori cyn cyflwyniad cais Cynllunio. Esboniwyd y cefndir i'r cynllun, gan ddweud bod adroddiadau manwl wedi eu paratoi ers pan ystyriwyd y cynllun yn flaenorol. Roedd trwydded tynnu dŵr wedi ei chael yn 2017, a bwriad y cynllun oedd cynhyrchu trydan i gannoedd o gartrefi, gan grybwyll sefydlu Clwb Ynni Lleol a fyddai'n golygu ynni rhatach i

bobl leol, ac mai cwmni buddiant cymunedol a fyddai. Dywedwyd bod gwrthwynebiad lleol wedi bod yn y gorffennol a bod y cynllun wedi ei dynnu'n ôl i wneud gwaith pellach arno.

Dywedodd y Cynghorwyr yr hoffent gael cyfarfod safle, ac yr hoffent weld cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Llan hefyd er mwyn hysbysu aelodau'r cyhoedd. Dywedodd Ed Bailey y byddai'n cysylltu gyda Chlerc y Cyngor er mwyn trefnu dyddiad a oedd yn hwylus i bawb. Diolchwyd i'r tri am ddod i gyfarfod y Cyngor i gyflwyno'r cynllun.

**5. Cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor 9 Hydref 2023.**

Codwyd cywiriadau gan Y Cynghorydd Mark Thomas, fel a ganlyn:

Eitem 1 – ei fod wedi gofyn am gael anfon llythyr i Glyn Daniels yn gofyn am adroddiad misol, fel Cynghorydd Sir.

Eitem 14 – ychwanegu'r ffaith bod gofyn wedi bod am gyfarfod safle.

Nodwyd cywiriad gan Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths mewn perthynas ag eitem 6ii. Roedd eisiau pwysleisio'r ffaith iddo ddweud wrth Ceri Cunnington o Gwmni Bro bod cyfathrebu yn bwysig; roedd y cofnodion, fel roeddynt, yn swnio fel pe bai Ceri wedi dweud hynny. Mewn perthynas ag eitem 6iii, dywedodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths iddo ddweud yn y cyfarfod iddo ddiolch i'r wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan Andrew Williams ar gais Cynllunio hen eglwys Llan, a phe byddai'n gwybod y ffeithiau ar y noson y byddai wedi cefnogi'r cynllun gant y cant, ac unwaith eto pwysleisiodd mor bwysig oedd bod cyfathrebu da rhwng pawb fel nad oedd sefyllfaoedd fel hyn yn codi yn y dyfodol. Roedd diffyg wedi bod ar y ddwy ochr yn yr achos hwn, a gobeithiai na fyddai sefyllfa debyg yn codi yn y dyfodol.

Yn amodol ar y newidiadau uchod, cynigiodd Y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd Y Cynghorydd Eifiona Davies bod y cofnodion yn gywir ac yn cael eu derbyn, a chytunodd pawb.

**Cofnodion Cyfarfod Anarferol y Cyngor 13 Tachwedd 2023**

Cynigiodd Y Cynghorydd Gareth Davies ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis bod y cofnodion yn gywir ac yn cael eu derbyn a chytunodd pawb.

**8. Hidlydd HEPA**

Esboniodd y Cadeirydd bod yr eitem ar yr agenda oherwydd y noson pan roedd cymaint o aelodau'r cyhoedd yn bresennol. Ar ôl trafodaeth fer, cytunwyd nad oedd y Cyngor Tref eisiau prynu'r offer.

**9. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

Derbyniwyd cais gan Theatr bara Caws, a chynigiodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd Y Cynghorydd Linda Ann Jones a chytunodd pawb bod y Cyngor Tref yn rhoi'r un faint ag a roddodd y tro diwetha, a chytunodd y Clerc chwilio i weld faint oedd hynny.

Derbyniwyd cais hefyd gan yr Ambiwlans Awyr, a chynigiodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd Y Cynghorydd Linda Ann Jones bod y Cyngor Tref yn rhoi £1,000 a chytunodd pawb.

**10. Datblygiadau yn yr Ardal**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**11. Taliadau a Derbyniadau**

Gofynnodd Y Cynghorydd Linda Ann Jones am gael nodi dyddiad y taliadau i'r Ganolfan, h.y. at ba fis roedd y biliau yn cyfeirio a chytunodd y Clerc wneud hynny yn y dyfodol. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Eifiona Davies bod y rhestr yn cael ei derbyn a'i chymeradwyo a chytunodd pawb.

**12. Goleuadau Nadolig**

Cytunwyd gan bawb bod angen rhoi'r mater ar agenda'r Cyngor yn llawer cynt y flwyddyn nesaf. O ran y gwaith a wnaethpwyd gan Gwyn Thomas yn Sgwâr Diffwys i hwyluso rhoi goleuadau ar goeden y Cyngor Tref cynigiodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref yn bilio'r Cyngor Sir am oriau Gwyn yn gwneud y gwaith a chytunodd pawb. Nodwyd pryd yr oedd y goeden yn cyrraedd ac awgrymodd Y Cynghorydd Mark Thomas y gellid gofyn i'r Dref Werdd helpu gyda'r gwaith o'i gosod. Cytunodd y Clerc eu holi. Dywedodd ei bod wedi bod mewn cysylltiad gyda Huws Gray i gael gyrrwr a Hiab yno, ac roeddent wedi cadarnhau y gallent helpu gyda'r ddwy goeden. Roedd Roberts Transport eisoes wedi cytuno mynd i nôl y coed a'u gadael yn y Blaenau a Llan.

**13. Maes parcio Perllan Maes yr Ynn**

Esboniodd Y Cynghorydd Mark Thomas mai aelodau o'r cyhoedd a eodd wedi gofyn am gael mwy o le parcio yno. Dywedodd hefyd bod car wedi taro'r ffens yno gan achosi difrod. Cynigiodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh bod ymweliad safle â'r Berllan yn cael ei drefnu a chytunodd pawb, gan benderfynu ei gynnal ar yr un diwrnod ag ymweliad safle Cwm Cynfal.

**14. Rhybudd o Gynnig**

Trafodwyd rhybudd o gynnig a gyflwynwyd gan Y Cynghorydd Troy MacLean yn gofyn i'r Cyngor Tref drafod sefyllfa drysau ysgolion anghenion ychwanegol. Cynigiodd ef y cynnig ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas. Esboniodd Y Cynghorydd Troy MacLean bod drysau tân ysgolion anghenion arbennig yn cael eu cloi ac mai dim ond staff oedd yn gallu eu hagor. Dywedodd Y Cynghorydd Linda Ann JOnes ei bod yn is-gadeirydd Pwyllgor Gofal y Sir ac y byddai'n gwneud ymholiadau i'r sefyllfa.

**15. Materion er gwybodaeth**

Nid oedd gan unrhyw gynghorydd unrhyw beth i'w adrodd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.41pm

DRAFT